YSGOL HAFAN Y MÔR
Heywood Lane,
Dinbych y Pysgod/ Tenby,
SA70 8BZ

☎ 01834-843248

admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk

Ysgol Hafan y Mor, Dinbych y Pysgod ysgolhafanymor.cymru @hafanymortenby

Pennaeth / Head teacher; Mrs V Hart-Griffiths

Defnydd Derbyniol ar gyfer disgyblion

Annwyl Rieni

Defnyddio'r rhyngrwyd a'r e-bost yn ddiogel yn yr ysgol

Fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol, mae disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron yn yr ysgol i fynd ar y rhyngrwyd ac i anfon negeseuon e-bost. Mae addysgu disgyblion ar ddefnyddio'r cyfleusterau hyn yn ddiogel yn rhan o'r cwricwlwm. Bydd eich plentyn yn cael ei gyflwyno i e-ddiogelwch mewn ffordd gynlluniedig a chynyddol trwy gydol yr ysgol er mwyn ei helpu i ddeall sut i gadw'i hun yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a dyfeisiau electronig eraill. Byddwn yn sicrhau bod defnydd diogel bob amser yn cael ei gynnwys pan fydd gweithgareddau newydd yn cael eu cyflwyno i ddisgyblion.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddiogelwch eich plant, rydym bob amser yn sicrhau bod diben addysgol gwerthfawr yn gysylltiedig â defnyddio'r rhyngrwyd, a bod hynny'n cael ei oruchwylio. Mae mynediad i'r rhyngrwyd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Penfro trwy system wedi'i hidlo, sy'n atal mynediad at y rhan fwyaf o ddeunydd annymunol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o bosibilrwydd bob amser y gallai deunydd annymunol ddianc drwy'r hidlyddion ond byddwn yn dweud wrth blant beth i'w wneud pe bai hynny'n digwydd. Byddwn yn addysgu disgyblion i ymddwyn yn gyfrifol ar y rhyngrwyd a deall rhai o'r risgiau cysylltiedig.

Pan fydd disgyblion yn defnyddio unrhyw fath o gyfathrebu electronig, bydd hyn bob amser yn cael ei reoli'n ofalus fel ein bod yn gwybod pwy y mae disgyblion yn cysylltu â nhw. Mae llawer o blant yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd y tu allan i'r ysgol erbyn hyn, rhai drwy eu ffonau symudol. Dylech gofio bod hyn yn rhoi llawer mwy oryddid i ddisgyblion ddefnyddio'r rhyngrwyd ac, o ganlyniad, ei gwneud hi'n llawer haws iddynt gael at ddeunyddiau a gweithgareddau a allai fod yn anaddas. Yn ogystal, gallai disgyblion ddefnyddio'r rhyddid hwn i gysylltu â phobl nad ydynt yn eu hadnabod, er eu bod yn ystyried bod y bobl hyn yn ffrindiau, gan eu bod yn cysylltu â nhw'n rheolaidd. Gallai disgyblion hefyd ddefnyddio rhai o'r cyfryngau hyn (fel negeseuon testun, camerâu ar ffonau symudol neu safleoedd rhwydweithio cymdeithasol fel Facebook) i anfon negeseuon trallodus neu gyhoeddi pethau am ddisgyblion eraill y gellid eu hystyried yn fwlio. Byddwn yn addysgu disgyblion am 'seiber-fwlio' a pherygl cysylltu â phobl ddieithr ar-lein fel rhan o'r cwricwlwm. Rydym eisiau i chi wybod ein bod yn cymryd unrhyw weithgarwch o'r math hwn o ddifrif, hyd yn oed os yw'n digwydd y tu allan i'r ysgol, oherwydd gall beri gofid enfawr i'r derbynnydd. Byddem yn cysylltu â chi pe bai problem o'r fath yn codi ac yn gofyn am eich cymorth wrth fynd i'r afael â materion.

Mae copi o'r Polisi Defnydd Derbyniol sydd ar waith yn ein hysgol ar gael i chi os y dymunwch, y mae disgwyl i'ch plentyn ei ddilyn.

Yn gywir / Yours sincerely

Mrs V Griffiths
Pennaeth